**DIM EMBARGO: I'W GYHOEDDI AR UNWAITH**

# DATGANIAD I'R WASG

**13 Ionawr 2017**

## MWY O GYMRAEG OS GWELWCH YN DDA?

### www.menterbromorgannwg.cymru

Mae annog a hwyluso busnesau bach yng Nghymru i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn golygu bod yr iaith yn cael ei gweld a'i chlywed yn ein cymunedau.

Mae Menter Bro Morgannwg, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn gweithredu cynllun peilot newydd i annog busnesau i weld gwerth dwyieithrwydd ac ymgorffori'r Gymraeg yn eu busnesau. Mae'r cynllun hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith fel rhywbeth sy'n medru cael ei ddefnyddio'n naturiol gan gwsmeriaid a chynyddu'r ewyllys da yn y gymuned.

Mae'r cynllun peilot, sydd yn rhad ac am ddim i fusnesau sy'n cymryd rhan, yn paratoi proffil syml i adnabod gofynion y busnes a chynnig cymorth a chyngor ymarferol ar sut i gynyddu darpariaeth.

Os oes diddordeb gyda chi i wybod mwy am y prosiect ac i gofrestru eich diddordeb, cysylltwch gyda Ffion Rhisiart ar 029 2068 9888 / ffion@menterbromorgannwg.cymru

**Diwedd**

**Nodiadau**

- Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiddymu Menter y Fro yn Ionawr 2013, sicrhaodd Menter Caerdydd tendor o £30,000 i ddatblygu ac arwain prosiect yn ymwneud â'r Gymraeg ym Mro Morgannwg trwy gyd-weithio â phartneriaid lleol yn ogystal â'r awdurdod lleol.
- Prif nod Menter Bro Morgannwg yw i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Y Fro, a chreu cyfleoedd i drigolion y Sir ddefnyddio'r iaith y tu allan i oriau gwaith a muriau Ysgol.
- Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae bron i 11% o boblogaeth y Sir yn siaradwyr Cymraeg (13,189).
- Mae'r prosiect hwn yn rhan o weledigaeth ac uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sian Lewis (Prif Weithredwr Menter Bro Morgannwg): sian@menterbromorgannwg.cymru / 029 20689888